NASUWT
The Teachers' Union

# BWLETIN

## Y diweddaraf am Ysgolion Annibynnol

### Aelodau NASUWT mewn ysgolion annibynnol yn mynd ar streic i amddiffyn eu pensiynau

Yn ei anerchiad i'r Gynhadledd Flynyddol, cymeradwyodd Dr Patrick Roach, Ysgrifennydd Cyffredinol NASUWT, y safiad y mae aelodau NASUWT mewn ysgolion annibynnol wedi ei wneud i amddiffyn eu Pensiwn Athrawon. Mae ein haelodau wedi mynd ar streic hir i amddiffyn eu hawliau pensiwn mewn nifer o ysgolion annibynnol o amgylch y wlad. **Trwy weithredu fel hyn, mae'r aelodau'n sefyll dros bensiwn pob un o'n haelodau cyflogedig yn y sector annibynnol.**

Tynnodd Dr Roach sylw at y 'rhestr warth' o ysgolion lle doedd dim dewis gan yr aelodau ond gweithredu'n ddiwydiannol i amddiffyn eu pensiynau. Mae'r rhain yn cynnwys Ysgol Uwchradd i Ferched Norwich (Girls' Day School Trust – GDST), Ysgol Uwchradd Rhydychen (GDST), Ysgol Uwchradd Bromley (GDST), Ysgol Uwchradd i Ferched Newcastle (GDST), Ysgol Pocklington, Forest School, Sefydliad Ysgolion Loughborough, Ysgol Ipswich, Ysgol Prior's Field, Ysgol St Francis, Ysgol Mount Kelly, Ysgol Abbot's Hill, Ysgol Westholme ac Ysgol y Celfyddydau Perfformio Tring Park.

Mae'r gweithredu gan aelodau yn yr ysgolion hyn yn arwydd i gyflogwyr eraill yn y sector ysgolion annibynnol o gryfder y teimlad ymysg ein haelodau. Mae pensiynau'n rhan bwysig o'r pecyn gwobrwyo i athrawon. **Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon mewn ysgolion annibynnol wedi eu cofrestru yn y Cynllun Pensiwn Athrawon.**

Mae rhai cyflogwyr yn y sector ysgolion annibynnol wedi dewis arfer y weithred ddiegwyddor o 'ddiswyddo ac ailgyflogi' er mwyn gorfodi pensiwn preifat ar athrawon. Mae'r arfer hwn yn cynnwys bygythiad gan y cyflogwr i ddiswyddo athrawon nad ydynt yn barod i dderbyn contract sy'n waeth na'r un a lofnodwyd ganddynt yn wreiddiol. Yn dilyn y diswyddo, mae'r ysgol yn cynnig ailgyflogi'r athrawon, gan ddibynnu ar y ffaith nad oes dewis gan y gweithwyr cyflogedig ond derbyn contract gwaeth er mwyn cadw eu swyddi.

### Pam mai'r Cynllun Pensiwn Athrawon yw'r dewis gynllun i athrawon?

Y Cynllun Pensiwn Athrawon yw'r cynllun cenedlaethol i'r holl athrawon ac mae'n gynllun **BUDDION DIFFINIEDIG**, sy'n golygu y byddwch yn gwybod faint yw eich incwm yn y dyfodol ac felly byddwch yn gallu cynllunio ar gyfer ymddeoliad diogel. Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn cynnwys buddion megis ymddeoliad ar sail afiechyd a budd-daliadau marwolaeth mewn swydd, ac nid yw'n dibynnu ar fuddsoddiadau yn y farchnad stoc. Gallwch weld eich cofnodion chi drwy gofrestru ar wefan Teachers' Pensions: **www.teacherspensions.co.uk**.

Mae'r cynlluniau pensiwn preifat a gynigir gan rai cyflogwyr yn gynlluniau **CYFRANIADAU DIFFINIEDIG**. Mae hyn yn golygu eich bod yn gwybod faint sy'n rhaid i chi ei dalu ond nid y swm y byddwch yn ei dderbyn wrth ymddeol. Gallwn eu disgrifio fel 'cyfrif cynilo ar gyfer ymddeol'. Mae hyn yn golygu y byddai eich pensiwn wedi ei seilio ar werth y cynilion hynny yn unig wrth ymddeol, ac ar eich gallu i brynu cynllun blwydd-dal. Mae'r 'cyfrifon cynilo' hyn yn dibynnu ar fuddsoddiadau yn y farchnad stoc, felly gall eu gwerth amrywio.

**Os bydd eich cyflogwr yn cynnig cynnal ymgynghoriad ar ymadael â'r Cynllun Pensiwn Athrawon, rhowch wybod i NASUWT ar unwaith drwy anfon e-bost at advice@mail.nasuwt.org.uk. Mae pob ymholiad yn gyfrinachol.**

Bydd NASUWT yn parhau i drafod yr ymosodiad annerbyniol hwn ar bensiynau ein haelodau gyda Bwrdd Cynghori Teachers' Pensions a'r Cyngor Ysgolion Annibynnol.

Mae rhagor o wybodaeth am bensiynau i'w gweld ar ein gwefan **NASUWT | England Pensions**

## BYDD NASUWT YN PARHAU A'I FRWYDR I AMDDIFFYN EICH PENSIWN

"siaradwch â ni"